# Gwneud defnydd o gymorth technoleg wrth ôl-gynhyrchu

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â gweithio gyda staff cymorth technegol i atgyweirio, cynnal parodrwydd gosodiadau meddalwedd a chaledwedd a'u diweddaru er mwyn galluogi llif gwaith i fynd rhagddo heb drafferthion.

Dylai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â defnyddio caledwedd a meddalwedd yn rhan o'r llif gwaith y gallai fod angen cymorth technoleg arnynt ar ei gyfer.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi gofynion technegol prosiectau a'r mathau o gyfluniad caledwedd a meddalwedd sydd ar gael o ffynonellau dibynadwy
2. nodi anghenion cyflunio caledwedd a meddalwedd y bydd angen cymorth arnoch ar eu cyfer yn erbyn asesiad realistig o'ch sgiliau technegol a'ch arbenigedd
3. defnyddio gwybodaeth ddibynadwy yn sgil monitro technegol i ragweld problemau technegol a allai effeithio ar ddichonoldeb, cost a hyd y gwaith
4. nodi diffygion neu anawsterau technegol sy'n digwydd a hynny'n gynnar
5. nodi ffynonellau dibynadwy o arbenigedd sydd ei angen i greu neu unioni cyfluniadau
6. darparu briffiau clir i gydweithwyr technegol ar ofynion technegol cynnyrch a chamau'r llif gwaith
7. asesu dichonoldeb, gofynion cost ac amser yn erbyn effaith caledwedd neu feddalwedd diffygiol i'r llif gwaith
8. cofnodi cyfluniadau ac effeithiolrwydd datrysiadau yn unol â gweithdrefnau'r cwmni
9. cynnal diogelwch ar gyfer ffeiliau a deunyddiau eraill yn unol â gofynion y cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y llif gwaith ac egwyddorion y gwahanol weithrediadau sy'n digwydd o fewn iddo
2. y mathau o offer sydd ei angen a gwendidau ac effeithiau diffygion cyffredin arno
3. sut y bydd protocol y rhyngrwyd yn effeithio ar fformat
4. terminoleg a ddefnyddir gan staff cymorth technegol
5. egwyddorion cyfluniadau cyfrifiaduron a rhwydweithiau data
6. egwyddorion y pethau safonol ac ansafonol y gellir eu cyflawni, fformatau ffeil, rhyng-gysylltedd digidol ac elfennau o signalau sain a fideo
7. safonau gwylio presennol a safonau proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol presennol o ran darparu a datganiadau o arfer gorau ar gyfer yr ystod o lwyfannau a chynnwys
8. rhagdueddiad ansawdd a fformatau i amrywiadau ym mherfformiad offer
9. dulliau derbyniol ac annerbyniol o gwtogi gwaith a chanfod ffyrdd amgen o weithio
10. cyfathrebu â chydweithwyr technegol a staff annhechnegol mewn rhannau eraill o'r llif gwaith
11. y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i chi a ble i'w gael
12. ffactorau iechyd a diogelwch yr offer a'r gweithle
13. systemau'r cwmni ar gyfer storio, arbed copïau wrth gefn a diogelwch

Gwneud defnydd o gymorth technoleg wrth ôl-gynhyrchu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPP25 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Ôl-gynhyrchu |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Technoleg, Cefnogaeth, Caledwedd, Meddalwedd |